O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 465 (Cy. 106)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Y Fenni, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Ebrill 2020* |
| *Yn dod i rym* | *5 Mai 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Y Fenni, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 5 Mai 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 5 Mai

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri yn y Fenni, Sir Fynwy sy'n ymestyn o bwynt 40 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Cylchfan Hardwick hyd at bwynt 14 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Union Road.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2.

**Cymhwyso**

**5.** Ni fydd y cyfyngiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae'r arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 28 Ebrill 2020

*Nicci Hunter*
Arweinydd Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru